# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 2il o Ionawr 2018 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1 CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Yr unig addewidion sy'n berthnasol i'r Cynllun Strategol yw'r cynlluniau arbedion ac mae yna ddiweddariad yn rhan 5.

1.3 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli a gynhaliwyd yn benodol at y pwrpas sydd hefyd yn cynnwys 2 gynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu perthnasol.

1.4 Ar y cyfan, rwy'n hapus gyda pherfformiad y mesurau yr wyf yn gyfrifol amdanynt neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

2.2 Lleihau'r targed arbedion ar gyfer arbedion teithio o £390,000 i £240,000 a symud y flwyddyn cyflawni o 2018/19 i 2019/20 ond gan ofyn i'r cynllun gael ei weithredu cyn 1 Ebrill 2019 os yw'n barod.

## 3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PERFFORMIAD

4.1 Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio. Mae'r defnydd o graffiau yn datblygu er mwyn galluogi adrodd ar y mesurau mewn ffordd syml a chynhwysfawr.

4.2 Mae'r **Gwasanaeth Cynllunio** yn gyfrifol am hwyluso a rheoli datblygiadau er budd cymunedau, yr economi a'r amgylchedd.

4.3 'Rydw i wedi bod yn cadw golwg ar fesur perfformiad **Pa mor sydyn mae'r holl geisiadau ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu (C2)** yn dilyn y dirywiad a welwyd yn yr adroddiad diwethaf i 61 diwrnod. Cyfartaledd cronnus y mesur am y flwyddyn yw 60 diwrnod i benderfynu ar gais, gyda'r perfformiad ar bob cyfnod adrodd rhwng 63 a 50 diwrnod.

4.4 Rwyf wedi herio'r perfformiad ac mewn ymateb nododd y Gwasanaeth fod y ffactorau staffio ac oedi yn deillio o'r Pwyllgor Cynllunio oedd wedi achosi i'r perfformiad ddirywio yn parhau i gael effaith. Fodd bynnag, maent yn obeithiol bydd newidiadau cyfansoddiadol arfaethedig yn dilyn argymhellion Ymchwiliad Craffu yn ysgafnhau ar lwyth gwaith y Pwyllgor Cynllunio. Dylai hynny yn ei dro gael effaith bositif ar berfformiad y Gwasanaeth.

4.5 Nodir fod perfformiad y mesur **Pa mor sydyn mae'r holl achosion Gorfodaeth ar gyfartaledd wedi cymryd i'w datrys (C6)** wedi dirywio eto yn y cyfnod diweddar, gan gynyddu o 92 diwrnod yn ôl i 146.5 diwrnod. Yn yr un modd gwelir fod **Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys o fewn 12 wythnos o gael eu derbyn yn ystod y flwyddyn (C7)** wedi disgyn i 45.45% o gymharu â 82% yn yr adroddiad a gyflwynwyd ym Medi. Noda'r Gwasanaeth fod capasiti staff yn achosi i'w perfformiad lithro, wedi i'r Gwasanaeth golli swyddog yn y cylch diwethaf o arbedion.

4.6 Mae'r drafodaeth o amgylch y mesurau yn parhau, gan nad wyf yn sicr o hyd os yw'r mesur yn adrodd yr hyn sy'n bwysig i'r dinesydd, sef ein bod yn darganfod datrysiad i unrhyw gwynion. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ystyried y ffordd orau i fesur eu perfformiad yn y maes yma. Maent hefyd yn edrych ar eu gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn blaenoriaethu achosion yn effeithiol ac yn rhoi gwasanaeth sy'n diogelu ac ychwanegu gwerth i'r dinesydd.

4.7 Pwrpas **Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd** yw cefnogi busnesau a gwarchod safonau iechyd cyhoeddus ac amgylcheddol a safonau masnach ar gyfer y cyhoedd a sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn cael ei darparu mewn ffordd sydd yn gwarchod y cyhoedd ac yn cefnogi busnesau.

4.8 Yn y cyfnod dan sylw fe welir bod **Canran y busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol â'r rhaglen (G2)** sydd yn hwyr yn cael eu harchwilio wedi cynyddu i 8% o'i gymharu â 7% yn yr adroddiad diwethaf. Nododd y Gwasanaeth mai pwysau gwaith o'i gymharu gyda'r adnodd oedd ar gael oedd y rheswm pennaf pam fod y rhaglen wedi llithro, yn arbennig felly gan ystyried y nifer o fusnesau sydd gennym sydd ddim ond yn agored dros yr haf. Mae'r Gwasanaeth wedi archwilio 47% o'r busnesau erbyn hyn.

4.9 Nodir bod **Canran y troseddau a gafodd eu datrys drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd (G5)** wedi codi i 81% o'i gymharu â 57% ar gyfer yr adroddiad diwethaf. Er bod hyn yn ymddangos yn welliant sylweddol, ymddengys mai gwella'r cofnodi ymysg y swyddogion sy'n gyfrifol. Mae'n bwysig felly annog swyddogion i gofnodi eu gwaith yn llawn fel ei fod yn cael ei weld a'i gydnabod. Noda'r Gwasanaeth hefyd fod yr achosion sy'n parhau i fod yn agored yn rhai ble mae'r ymchwiliad yn parhau neu yn achosion ble mae erlyniad ar y gweill.

4.10 Dengys y wybodaeth ynghylch **Cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu cais trwydded tacsi (G7)** fod y perfformiad wedi gwella i 8.95 diwrnod o'i gymharu â 10.24 yn yr adroddiad diwethaf. Fodd bynnag, gwelir fod nifer o achosion sy'n cymryd cyfnod hir i'w datrys. 'Rydw i wedi awgrymu fod y Gwasanaeth yn rhannu'r ceisiadau am drwyddedau gan yrwyr oddi wrth y ceisiadau am drwydded cerbyd er mwyn gweld y perfformiad yn fwy eglur. Noda'r Gwasanaeth fod ceisiadau yn cael eu prosesu yn gyflym wedi i'r holl wybodaeth gael ei dderbyn.

4.11 Mae'r **Gwasanaeth Eiddo** yn gyfrifol am gefnogi Adrannau'r Cyngor drwy ddarparu eiddo addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a sicrhau fod portffolio eiddo'r Cyngor yn cael ei reoli'n effeithlon ac effeithiol.

4.12 Gwelwn fod data mesur **Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw (Eiddo1).** Yn parhau yn gyson ar 9.5 diwrnod. Mae rhai galwadau yn parhau i gymryd llawer hwy na'r cyfartaledd i'w datrys, fel arfer yn achosion ble mae'r gwaith yn gymhleth neu arbenigol ei natur. Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu mewnosod meddalwedd fydd yn gwella'r rheolaeth dros alwadau a chontractwyr. Hefyd mae'r Gwasaneth yn parhau a rhaglen o gyflogi crefftwyr er mwyn gwella'r blaenoriaethu adnoddau, ddylai arwain at gysoni'r amser ymateb i alwadau a gwella'r gwasanaeth i bobl Gwynedd.

4.13 Wedi newid y dull o gasglu'r wybodaeth ar gyfer **Canran Bodlonrwydd Cwsmeriaid Uned Diogelwch a Gwaith Rhaglenedig (Eiddo5),** bu i'r canran bodlonrwydd ostwng. Mae hynny wedi arwain ar ddau ddatblygiad. Yn gyntaf mae'r Gwasanaeth yn cywain gwell adborth o gasglu barn, sy'n eu galluogi i wella'r gwasanaeth. Yn ail mae'r Gwasanaeth, fel aml i wasanaeth arall yn canfod fod eu cleientiaid yn dechrau syrffedu ar roi adborth i bob darn o waith sy'n cael ei dderbyn. Cafwyd ar ddeall fod y mater yma yn derbyn sylw'r Prif Weithredwr fel rhan o adolygiad gweithrediad ein trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol.

4.14 Mae newid diweddar wedi bod yn null mesur **Adborth gan ddefnyddwyr adeiladau newydd, ddwy flynedd ar ôl agor (Eiddo 7),** gan ofyn am sgôr allan o ddeg yn hytrach na gofyn a yw'r cleient yn hapus yn unig. Mae'r newid yma wedi arwain at dderbyn ymatebion llawer mwy gwerthfawr wrth edrych tua'r dyfodol.

4.15 Gwelir fod y **Nifer o apeliadau i'r beirniad annibynnol sy'n cael eu caniatáu (Eiddo11)** wedi aros ar ddim hyd yma yn 2017/18.

4.16 Mae'r Uned Stadau a Chyfleusterau wedi bod yn adolygu eu pwrpasau a'u mesurau, ac wedi cyflwyno mesur **Canran bodlonrwydd cwsmeriaid yr Uned Stadau a Chyfleusterau (Eiddo12).** Noda'r Gwasanaeth fod yr ymatebion yn gyfan gwbl bositif o ran ansawdd y gwaith, gyda'r cwynion oll yn cyfeirio at yr amser mae'n ei gymryd i wneud y gwaith. Mae'r amser mae'r Uned yn ei gymryd i wneud y gwaith yn ganlyniad uniongyrchol i bwysau gwaith a lleihau nifer staff yn dilyn y toriadau diweddar. Mae staff ychwanegol wedi eu cyflogi dros dro er mwyn cynyddu capasiti yr Uned. Mae'n fwriad hefyd i gynnal ymarferiad Ffordd Gwynedd yn yr Uned yma, ac mae bwriad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau graffu'r drefn o weinyddu'r protffolio mân ddaliadau

4.17 Mae'r **Gwasanaeth Trafnidiaeth Integredig** yn ei gyfanrwydd yn hwyluso gallu pobl i deithio o un lle i'r llall ar draws rhwydwaith sy'n ddiogel gan hefyd godi eu hymwybyddiaeth a'u haddysgu am ddiogelwch.

4.18 Mae gwaith yn mynd rhagddo yn yr Uned Gwaith Stryd a'r Uned Cefn Gwlad i ddatblygu mesurau addas. Mae wedi arwain i greu graff eglur a chynhwysfawr iawn er mwyn adrodd ar fesur **Canran o siwrnai cludiant cyhoeddus sydd yn brydlon (Cludiant01).** Mae'r dasg o ganfod mesurau wedi arwain at ailffocysu'r gwaith at anghenion pobl Gwynedd, gan ei symud oddi wrth benderfyniadau a wnaed yn y gorffennol i geisio lleihau costau.

4.19 Mae'r dasg o ganfod mesurau sy'n adlewyrchu gwaith y **Gwasanaeth Cefn Gwlad** yn parhau. Byddaf yn adrodd arno i'r dyfodol.

## 5 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

### 5.1 Gwireddu Cynlluniau Arbedion Cyfredol

Mae cynnydd derbyniol iawn wedi ei wneud tuag at wireddu cynlluniau 2017/18 gyda 97% o'r arbedion unai wedi eu gwireddu neu ar drac, a'r rhagolygon yn addawol. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd ychydig o lithriad mewn gwireddu dau gynllun:

- Cynllun Rh33 (Adolygiad Rhent Manddaliadau), lle mae'r Adran wedi cychwyn ar y gwaith
- Cynllun Rh42 (Gwarchod y Cyhoedd - codi ffi am gynnig cyngor), gan mai yn chwarter 4 bwriedir cychwyn codi ffi.

Ychydig o lithriad pellach a ragwelir, gyda'r arbedion yn cael eu gwireddu'n llawn erbyn 2018/19.

### 5.2 Cynllunio Arbedion i'r Dyfodol

Yn ogystal â darganfod ei arbedion ei hun mae'r Adran Amgylchedd yn gyfrifol am arwain un prosiect arbedion ar draws y Cyngor, sef i leihau costau teithio i'r dyfodol.

Dengys y gwaith cychwynnol fod yr amcangyfrifon gwreiddiol yn bell ohoni am eu bod wedi ystyried y byddai modd arbed mewn cynlluniau sydd yn cael eu hariannu drwy grant a.y.b. sydd ddim yn wir.

O ddiystyru'r meysydd hynny lle na fyddai arbediad yn deillio, mae'r swm potensial yn disgyn o £390,000 a adnabuwyd yn wreiddiol i £240,000.

Dengys gwaith pellach fod y swm yma yn debygol o ddisgyn ymhellach o gofio fod nifer o'n staff yn gweithio o ganolfannau lle na fyddai modd cyfiawnhau lleoli car prydles yn y ganolfan benodol honno. Wedi dweud hynny, dengys yr achos busnes amlinellol fod arbedion yn bosibl, ond os am eu cyflawni mae angen pwyllo i sicrhau fod gennym gynllun hollol hyfyw.

Argymhellir felly fod y targed arbedion yn cael ei symud o 2018/19 i 2019/20 yn Strategaeth Ariannol y Cyngor, ond gan ofyn i'r cynllun gael ei wireddu cyn 1 Ebrill 2019 os yw hynny'n bosibl.

---

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Rwy'n nodi'r dymuniad i addasu'r Cyfansoddiad yn sgil yr ymchwiliad craffu a byddaf yn cefngoi symud hyn ymlaen i benderfyniad. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Cadarnhaf fod y sylwadau yn rhan 5 o'r adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa'r Adran Amgylchedd o ran gwireddu'r arbedion.
Ynglŷn a'r cynllun arbedion "lleihau costau teithio", gyda chymeradwyaeth y Cabinet i'r argymhelliad sy'n rhan 2.2 o'r adroddiad, byddaf yn addasu gwerth ac ail-broffilio amseriad yr arbediad yn Strategaeth Ariannol y Cyngor (£240,000 i'w wireddu yn 2019/20).

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad